**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AR 18 MEHEFIN 2024, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Philip Roberts, Berwyn Parry Jones, Gwynedd Williams, Ann Lawton, Beca Brown.

**YNDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Rhys Parry, Hefin Jones, Richard Robinson, Cemlyn Jones, Alan Pritchard

**CLERC:** Meirion Jones

**1323. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Cynghorydd Rhys Parry, fe gymerwyd y gadair gan Cynghorydd Avril Jones, Is-gadeirydd y cyngor.

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a dechreuodd y Cadeirydd drwy longyfarch a diolch i'r Cynghorydd Rhys Parry am ymgymryd a rôl Cadeirydd y Cyngor. Diolchodd hefyd i'r Cynghorydd Cemlyn Jones am ail ymuno a'r cyngor.

**1324 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1325. Datgan buddiant personol.**

Rhain yw datgan fel yn briodol

**1326. I dderbyn cofnodion cyfarfod 21 o Fai 2024**

Derbyniwyd y cofnodion ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1327. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1328. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

Cynllunio Partneriaeth Dyffryn Peris

Bu Beca a finnau mewn cyfarfod Cynllunio Partneriaeth Dyffryn Peris yn ddiweddar, i geisio helpu rhoi ychydig mwy o gig ar cais am grant. Ac mae'n braf cael adrodd fod y cais wedi bod yn llwyddiant, ac mae swm o arian wedi ei dderbyn i ariannu ystafell yn Caban am oddeutu 6 mis, ac hefyd digon i gyflogi rhywun i osod y Bartneriaeth i fyny hefo cyfansoddiad ac yn y blaen.

Cynllun Atal Llifogydd Hirael Bangor

Agoriad swyddogol hefo Huw Irranca Davies creu “retaining wall” a hefyd llwybr beics a troed ar draws y prom.

Cyfweliadau NMWTRA

Wedi bod yn cyfweld am swydd Prif weithredwr NMWTRA (North and Mid Wales Trunk Road Agency) yr asiantaeth yma sydd yn gyfrifol, ar ran Llywodraeth Cymru am y prif ffyrdd sydd yn rhedeg trwy gogledd a canolbarth Cymru (e.e A55, A5, A487, A470) Cyngor Gwynedd sydd yn lletya yr asiantaeth ar ran 8 sir y Gogledd a’r Canolbarth. Roeddem yn ffodus iawn i fedru penodi yn fewnol

Cynllun Asedau

Daeth cynllun asedau y Cyngor i’r Cabinet i’w gymeradwyo sef cynllun 10 mlynedd. Mae eto yn dangos mor anodd ydi y sefyllfa ariannol. Roedd bidiau i wneud 75miliwn o waith angenrheidiol, ond dim ond £49miliwn ar gael. Felly roedd rhaid chwynnu – gwaith anodd iawn. O.N. Cyngor Llawn wedi cymeradwyo y cynllun yn ei gyfarfod ar 11ed o Orffennaf.

Strategaeth Rheoli Llifogydd

Roedd y Strategaeth rheoli llifogydd yn dod o flaen y Cabinet ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd yn drist oedd mae dim ond 77 ddaru ymateb i’r ymgynghoriad. Mae’r strategaeth wedi ei dderbyn gan y Cabinet, ac fydd yn awr yn mynd i Llywodraeth Cymru am gymeradwyaeth

Cyfarfod Ardal Ni

Bu Beca a finnau mewn cyfarfod o fudiadau Ardal Ni i gael diweddariad o lle roedd y Cyngor wedi cyrraedd hefo ei cynlluniau. Allan o’r cyfarfod fe ddaeth cynnig i wahanol grwpiau weithio gyda eu
gilydd.

Yn Lleol

Does gynnai wir ddim llawer mwy i adrodd ar Ysgol Cwm, ond i ddweud fy mod wedi cael cyfarfod adeiladol hefo Swyddog y Cyngor, a Prif Weithredwr newydd Menter Fachwen, a’r bwriad fydd i fynd am grant cychwynnol i holi trigolion be fyddai nhw eisiau gweld yn yr adeilad. O bosib fydd cais grant yn mynd i National Power.

Dwi wedi cael cwynion gan drigolion am hyd y gwair ar y cylchfan yn Cwm, dwi wedi ei adrodd o fel mater brys, dwi wedi cael cadarnhad gan y swyddogion eu bod wedi gofyn i’r contractwr wneud y gwaith.

Mae Beca am drefnu 2 ddiwrnod i rannu dillad ysgol eto cyn dechrau y tymor yr hydref ail gychwyn.

Fyddai yn dda wneud y diwrnodau yn fwy o “galw i mewn” gan gynnig panad a bisgedi, ac felly cais i ni fedru cynorthwyo ar y diwrnodau os yn bosib. Mi fydd y dyddiadau yn cael eu rhannu yn nes ymlaen.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1329. I dderbyn diweddariad ar faterion yn ymwneud a materion Hamdden a Mwynderau .**

Adroddodd y Cynghorydd Avril Jones nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y cyngor ond ymysg y materion sydd wedi cymryd lle

Mae lleoliad ar gyfer y diffibriliwr wedi benderfynu, mae'r offer wedi cyrraedd ac mae trefniadau ar y gweill i'w osod. Penderfynwyd mai'r lleoliadau gorau oedd wrth ymyl cyffordd Pontrug. Mae trefniadau ar y gweill i drefnu hyfforddiant. Y bwriad fydd cael un sesiwn yn y prynhawn ac un gyda'r nos.

Adroddwyd fod y cymal Siapan yn ôl mewn lleoliad yn Cwm y Glo ac fod yr achos wedi ei gyfeirio tuag at yr arbenigwr

Adroddwyd fod y gwaith a adnabuwyd ar y parc sglefrio yn dilyn cario allan asesiad risg wedi ei wneud

Nodwyd fod angen chwilio am goeden newydd ar gyfer Cwm y Glo er cof am y diweddar Gynghorydd Brian Jones. Awgrymwyd hefyd pwrcasu coeden rhosod fel anrheg i'r cyn Gynghorydd Meirwen Lloyd yn dilyn ei ymddeoliad diweddar o'r cyngor.

Cadarnhawyd dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor fel 2ail o Orffennaf 2024 am 18:00 (lleoliad i'w gadarnhau)

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a symud ymlaen i bwrcasu coeden newydd er cof am y diweddar Gynghorydd Brian Jones ac i bwrcasu coeden rhosod ar gyfer cyn Gynghorydd Meirwen Lloyd.

**1330. I dderbyn diweddariad ar faterion yn ymwneud a'r Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Cadeirydd y Pwyllgor fod un teulu newydd wedi ychwanegu at y rhestr.

Adroddwyd fod y cyfnod i wneud cais am grant oddiwrth Cist Gwynedd wedi agor, ond fod angen eglurhad os byddai cyflenwad o wyau a bara yn gallu disgyn i gategori gwariant cyfalaf. Os y byddai, yna mae'n bosib derbyn hyd at £5,000 o grant neu os ei ystyrir yn wariant refeniw yna £2,000 fyddai'r grant. Mae'r clerc wedi cysylltu a Cist Gwynedd o holi ac ar hyn o bryd disgwyl ymateb.

Gofynnwyd os byddai yn bosib hysbysebu am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r cynllun dosbarthu bwyd ar ddydd Gwener. Mae angen cymorth yn y bore rhwng tua 11:00 a 12:30 ar gyfer didoli'r bwyd a byddai o help cael cymorth yn y prynhawn i helpu dosbarthu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad ac i hysbysebu am wirfoddolwyr ar gyfrif Facebook y cyngor a'i ychwanegu ar ein gwefan

**1331. I dderbyn diweddariad ar faterion yn ymwneud a'r Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y pwyllgor y canlynol

Pwyntiau gan swyddog o'r ICCM yn dilyn ei asesiad risg yn y fynwent, wythnos Mehefin 10.

1) Wedi synnu fod cymaint o gofebion wedi eu trwsio ers yr asesiad risg diwethaf

2) Fod gwaith da wedi gwneud gan y person sydd wedi gosod y stêcs a'r tap. Angen mynd o gwmpas rŵan yn ail osod y tap ble mae wedi disgyn dros amser

3) Yn amlwg fod rhai wedi tynnu'r stêc allan a'i daflu

4) Gwaith da trwsio cofebion peryglus gan Roberts & Owen ac roedd o'n amau fod y contractwyr wedi gwneud mwy na 20 o gofebion ( y ffigwr yn y cytundeb gyda'r Cyngor).

5) Dylid y Cyngor sicrhau fod pawb sydd yn gweithio yn y fynwent yn anfon manylion eu hasesiad risg, 'safe systems of work' a chopi o'i yswiriant atebolrwydd i'r Cyngor.

6) Awgrymu yn gryf ein bod yn dod a'r broses o agor beddi yn fewnol oherwydd nad oes rheolaeth dros agor beddi.

7) Am y cofebion sydd heb gael sylw/gwaith arnynt ers yr archwiliad diwethaf, awgrymu bod y Cyngor yn cyhoeddi ei diolchiadau i bawb sydd wedi gwneud y gwaith ac sydd wedi cynorthwyo tuag at wneud y fynwent yn ddiogel i bawb.

b) Cyfarfod nesaf yr is-Bwyllgor : 25.6.24 (dros Zoom)

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1332. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C24/0400/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Dymchwel ystafell wydr bresennol. Codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo a phorth unllawr i flaen y tŷ. Demolish existing conservatory.
**Ymgeisydd:** Brython Hywel Sara Jones
**Asiant:** Mr H Gareth Jones (BDS Gwynedd)
**Cyfeiriad:** Dwyros Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PP
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:45

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: